**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-568
Ein cyf/Our ref MD/05469/14

William Powell AC
Aelod Cynulliad dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Petition@Wales.gov.uk

3 Tachwedd 2014

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â Deiseb: P-04-568 Ymchwiliad Cyhoeddus i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Rwy wedi dweud nad wyf o'r farn y bydd ymchwiliad cyhoeddus yn debygol o wella'n dealltwriaeth o'r hyn yw achos y diffygion y tynnwyd sylw atynt yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, a'n galluogi i bennu mesurau adferol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi derbyn pob un o'r 18 o argymhellion yn adroddiad Ymddiried mewn Gofal, ac ar ben hynny maent wedi gofyn am fesurau ychwanegol, gan gynnwys y rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau dirybudd a gafodd eu cynnal ym mhob ysbyty cyffredinol dosbarth yng Nghymru. Mae canlyniadau'r ymweliadau hynny wedi'u cyhoeddi erbyn hyn, ac yn cael eu hystyried. Mae Adroddiad Evans ar Ymdrin â Phryderon (Cwynion) (ar y cyd â chanlyniadau'r broses ymgysylltu a gafodd ei chynnal dros yr haf) hefyd yn cael ei ystyried.

Rwy'n ymwybodol o'r achosion troseddol a'r archwiliadau parhaus sy'n gysylltiedig â'r mater hwn, ac rwy'n cael y newyddion diweddaraf ynglŷn â hynny fel y bo'n briodol. Yn fy marn i, rhaid caniatáu i'r archwiliadau a'r arolygon hynny ddod i ben.

Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i ystyried gofynion erthyglau 2 a 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Rwy'n nodi bod y ddeiseb yn gofyn i'r Pwyllgor Deisebau orfodi imi sefydlu ymchwiliad. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer i wneud hynny gan y pwyllgor. Gallaf roi sicrwydd i'r Pwyllgor fy mod yn cymryd diogelwch cleifion o ddifrif, ac fel y gwyddoch, mae gweithgor cenedlaethol wedi'i sefydlu i edrych ar y ffordd y mae meddyginiaethau'n cael eu gweinyddu, eu cofnodi, eu gwirio, a'u storio.

Bydd grŵp llywio Ymddiried mewn Gofal, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan y prif swyddog meddygol a'r prif swyddog nyrsio, yn ystyried nifer o'r themâu a ddaeth i'r golwg yn sgil yr ymweliadau dirybudd, a hynny fel rhan o'i waith wrth ymdrin ag argymhellion Ymddiried mewn Gofal.

Mae'r ymweliadau dirybudd wedi profi i fod yn ffynhonnell werthfawr o wersi y gall y GIG ddysgu ohonynt er mwyn gwella gofal cleifion ymhellach.

Yn gywir

Mark.

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services